## COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

**Dyddiad y penderfyniad:**

22 Medi 2022

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

22 Medi 2022

**Penderfyniad:**

CAFFAEL CYNWYSYDDION AR GYFER PROSIECT AILFODELU GWASTRAFF

Cytunwyd i ddyfarnu contract yn uniongyrchol ar gyfer cynwysyddion ailgylchu sych i gefnogi'r model gwastraff newydd a bod y penderfyniad yn cael ei weithredu'n syth oherwydd y risg o'r gost yn cynyddu neu oedi oherwydd ffactorau marchnad ansicr.

**Bwriad y penderfyniad:**

Mae'r penderfyniad yn ymwneud â chaffael cynwysyddion ailgylchu sych (troli bocs) i gefnogi'r model gwastraff newydd (didoli ar garreg y drws). Mae'r penderfyniad yn galluogi dyfarnu contract yn uniongyrchol i'r cyflenwr yn dilyn ymarfer Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw ym Mawrth 2022.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Cymeradwyo dyfarnu contract yn uniongyrchol i alluogi trefnu archeb ar gyfer y cynwysyddion ailgylchu sych newydd ac eitemau ategol fel y nodir yn Atodiad 1 (Eitem Rhan 2).

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r Bwrdd Prosiect wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Yr Amgylchedd a'r Economi (sy'n gweithredu fel Swyddog Gweithredol Prosiectau) ac yn cyfarfod tua unwaith y mis, ac ym mhob Bwrdd Prosiect mae'n diweddaru ar y risg ac mae'r safle presennol o ran costau yn cael eu cyflwyno i'w hadolygu a'u gweithredu fel bo'r angen.

Cafodd yr egwyddor gyffredinol o symud at fodel darparu gwasanaeth gwastraff newydd, gan gynnwys darparu cynwysyddion didoli ailgylchu ymyl

| |
|---|
| palmant newydd, ei chymeradwyo i ddechrau yn y Grŵp Gwella Gwasanaeth a'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2018 ac mae diweddariadau dilynol wedi'u cyflwyno yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Hydref 2019 a mis Mai 2021 a'r Sesiwn Briffio'r Cabinet ym mis Mawrth 2021. |

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

| |
|---|
| Gweler y Cynllun Dirprwyo. |